# Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-03-10 (p1): 4 Chwefror 2010**

## Ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i Ddyfodol Ardaloedd yr Ucheldir yng Nghymru. Papur Briffio gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Rhagarweiniad

1.Mae ardaloedd ucheldir Cymru yn gyfystyr â'r Ardal Lai Ffafriol dynodedig sy'n cynnwys rhyw 1.6 miliwn hectar gyda rhyw 1.2 miliwn hectar o hynny yn cael ei ffermio'n weithredol. Mae'r ALFf ei hun yn cynnwys tua 79 y cant o dir amaethyddol Cymru. Mae ffermio a gweithgareddau eraill sy'n seiliedig ar y tir o fewn yr ucheldir yn gwneud cyfraniad pwysig i gydlynedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol eu cymunedau lleol. Cydnabyddir hefyd bod yr ucheldir yn darparu amgylchedd i'w drysori gyda chynefinoedd a thirweddau o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r ucheldiroedd yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol yn cynnwys bwyd a choed, rheoleiddio hinsawdd, ynni adnewyddadwy, dwr glân, lliniaru llifogydd, cadwraeth bioamrywiaeth a chyfleoedd hamdden yn ogystal â storio lefelau sylweddol o garbon ym mhridd y mawndiroedd.

2.Mae hanes yn dangos bod ardaloedd yr ucheldir wedi wynebu ystod o ffactorau cymdeithasol economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sylweddol. Mae hyn yn dal yn wir a'r prawf yn awr yw sicrhau bod yr ucheldir yn gallu cynnal y gallu i ymateb ac addasu i bwysau yn y dyfodol, yn enwedig y sialensiau cymhleth a gyflwynir gan newid hinsawdd. Ar lefel fyd-eang, bydd y twf yn y boblogaeth yn galw am gynnydd sylweddol mewn cynhyrchu bwyd ar adeg pan fo cystadleuaeth ar gyfer defnydd tir gwahanol yn dwysau. Mae'r ardal yr ucheldir yn leoliad pwysig ar gyfer cynhyrchu bwyd, ond mae ganddi rôl allweddol hefyd i'w chwarae wrth barhau i ddarparu'r swyddogaethau niferus ac amrywiol y mae cymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol a lle mae cymdeithas yn disgwyl i agweddau amgylcheddol naturiol - bioamrywiaeth a thirwedd – beidio cael eu tanseilio.

### Tueddiadau Hanesyddol

3.Cafodd ucheldir heddiw ei lunio gan genedlaethau'r gorffennol a'r presennol sydd wedi gweithio ar y tir. Yn gyfochrog â'r chwyldro diwydiannol cafwyd chwyldro amaethyddol a arweiniodd at newidiadau mawr mewn defnydd tir er mwyn cwrdd â'r gofynion a ddaeth yn sgil ehangu'r canolfannau trefol a'r allfudo mawr o gefn gwlad Cymru i'r trefi. Yn gymharol ddiweddar, mae aelodaeth y DU o'r hyn sydd bellach yn cael ei adnabod fel yr Undeb Ewropeaidd, a mynediad ffermwyr i gymorth ariannol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin, wedi cael effaith ar ddefnydd tir a chynhyrchu da byw yn ardaloedd yr ucheldir.

4.Ar lefel Cymru gyfan, mae cyfraniad amaethyddiaeth i Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) Cymru yn llai nag 1 y cant. Mae hyn yn tanbrisio pwysigrwydd y diwydiant yng nghyd-destun yr economi gwledig lle mae ei gyfraniad oddeutu 7 y cant gan ddarparu tua 68,000 o swyddi yn uniongyrchol. Ar y llaw arall, ni all ffermio yng Nghymru osgoi pwysau cystadleuaeth fyd-eang ac, o fewn y DU, cyfyng yw dylanwad ffermwyr o fewn y cadwyni cyflenwi a phrosesu bwyd. Mae pwysau'r adwerthwyr bwyd mawr ar gostau wedi arwain at ganlyniadau i faint elw ar lefel fferm. Yn y cyd-destun yma mae trefn Taliad Sengl y PAC, sydd werth £290 miliwn bob blwyddyn i ffermio yng Nghymru, yn parhau i fod yn fecanwaith cymorth hanfodol.

5.Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, datblygodd consensws cymdeithasol oedd yn rhoi blaenoriaeth uchel i gynhyrchu bwyd gyda newid pellach sylweddol mewn defnydd tir a rhoi llai i sylw i gadw tirweddau a chynefinoedd gwerthfawr. Erbyn hyn mae'n ymddangos bod cymdeithas yn rhoi mwy o werth ar ddefnyddio tir i gyflenwi amrediad o fudd i'r cyhoedd sydd o bosib yn gwrthdaro gyda diwydiant amaethyddol sy'n ceisio cynhyrchu mewn ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon. Er enghraifft, cadw dwr yn rhydd o lygryddion amaethyddol; cadwraeth carbon sydd yn y pridd; lleihau pwysau pori; plannu coetiroedd helaeth newydd ar dir amaethyddol; gwrthdroi'r dirywiad mewn adar ffermdir.

### Ffactorau sy'n Sbarduno Newid

6.Yn aml mae'r rhai sy'n elwa o wasanaethau ecosystem yr ucheldir wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol sy'n bell i ffwrdd, gan arwain at anghysondeb rhwng y costau a wynebir gan y rhai sy'n rheoli ardaloedd yr ucheldir a'r rhai sy'n mwynhau'r budd ohonynt. Er mai'r trethdalwr yn y pen draw syn cyfrannu at y costau hyn trwy fecanweithiau cymorth fel y Cynllun Taliad Sengl a Chynllun Datblygu Gwledig Cymru a chwsmeriaid dwr yn talu am gostau trin dwr, mae rhai costau yn cael eu hysgwyddo gan y tirfeddianwyr. Maent yn amrywio o ystadau preifat ffyniannus i gymunedau ffermio mynydd ag incwm sy'n lleihau ac adnoddau llafur a chyfalaf sydd hefyd yn gostwng.

7.Mae lluosogrwydd y gwasanaethau ecosystem y gellir eu darparu o ardaloedd yr ucheldir yn golygu bod llawer o gystadleuaeth am dir ymysg rhanddeiliaid gwahanol. Mae system yr ucheldir ei hun yn un ddeinamig ac yn cael ei newid yn gyson gan amrywiaeth o ffactorau sy'n rhyngweithio yn aml iawn mewn ffyrdd nad oes modd eu rhagweld. Ar ben hynny, mae'r cymhlethdod niferus o ddefnydd tir a defnyddwyr tir sydd yn gorgyffwrdd wedi arwain at drefniadau daliadaeth tir cymhleth, sydd fel arfer yn cynnwys cyfran uchel o dir preifat ac ardaloedd sylweddol o dir sy'n eiddo i gyrff anllywodraethol, yn gymysg â chyfundrefnau gwladol ac eiddo cyffredin sy'n gweithredu ar raddfeydd gwahanol, gyda gorgyffwrdd anghyflawn ac weithiau dyraniad hawliau anghyflawn.

8.Mae'n rhaid cydnabod bod yno newid sylfaenol wedi bod yn economïau'r ucheldir dros y 100 mlynedd diwethaf. Arferai'r economïau

hyn gael eu dominyddu gan gynhyrchu crai, yn cynnwys cynnyrch amaethyddol, coedwigoedd a mwynau, a oedd yn daprau cynnyrch i'w allforio o ardaloedd yr ucheldir. Ers y 1950au yn arbennig, mae'r economi sy'n seiliedig ar y tir yn bennaf, wedi symud o gynhyrchu tuag at ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar hamdden ac ymfudiad ffordd o fyw.

9.I bob pwrpas mae'r ucheldir wedi newid o fod yn economi a adeiladwyd ar gynhyrchu i un sy'n seiliedig ar ddefnydd. Mae'r argyfwng economaidd diweddar a'r pwysigrwydd o gymryd camau mewn ymateb i'r sialens o leihau ôl-troed carbon Cymru a newid hinsawdd yn faterion polisi o bwys. Mae'r rhain yn codi cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd yr economi'r ucheldir sy'n seiliedig ar ddefnydd. A'r gallu i ymateb i bryderon ynghylch cynhyrchu a chyflenwi bwyd tra ar yr un pryd cyflenwi cyfundrefn rheoli tir gynaliadwy mewn ffordd fwy tryloyw.

10.Nodir rhai o'r agweddau allweddol i'w hystyried isod:

I raddau helaeth nid yw'r gwerth economaidd a ddarperir gan ardaloedd yr ucheldir trwy reoleiddio gwasanaethau ecosystem yn cael ei weld na'i gydnabod e.e. rheoleiddio hinsawdd trwy storio ac atafaelu carbon; puro dwr; a rheoleiddio llifogydd

Mae gan ardaloedd yr ucheldir bwysigrwydd fel mannu cronni dwr ar gyfer poblogaeth drefol yr iseldir yn bennaf gyda thua 70 y cant o ddwr yfed y DU yn deillio o ddalgylchoedd yn ardaloedd yr ucheldir. Mae rheolaeth briodol o'r ucheldir yn gwasanaethu i wanhau anterth llif afonydd a chynnal cyflenwadau i ardaloedd yr iseldir o dan amodau llif isel ac yn sgil newid hinsawdd mae hyn yn debygol o ddod yn wasanaeth cynyddol werthfawr yn y dyfodol.

Ardaloedd yr ucheldir yw'r darnau mwyaf sy'n weddill o gynefinoedd rhannol naturiol sy'n dal yn gyfan, ac sydd yn gartref i rywogaethau o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Mae llawer o ucheldir Cymru yn destun dynodiadau cadwraeth oherwydd ei nodweddion bioamrywiaeth, geoamrywiaeth a thirwedd.

Mae llawer o'r 280,000 hectar o goetiroedd yng Nghymru wedi'u lleoli yn yr ucheldir ac mae dewisiadau lliniaru newid hinsawdd yn cynnwys ehangu coetiroedd.

Effeithiau posib y camau a gymerwyd gan lywodraethau cenedlaethol ac uwch genedlaethol mewn ymateb i fethiant canfyddedig i reoli effeithiau arferion rheoli tir mewn ffordd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar effeithiau andwyol ar yr amgylchedd, fel Cyfarwyddeb Fframwaith Dwr a Chyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE, a gynlluniwyd i sicrhau bod canlyniadau amgylcheddol priodol yn cael eu cyflenwi.

Pwysau ar ddefnydd tir wrth i allyriadau carbon barhau i godi gan arwain tymheredd y byd i sefydlogi yn ôl y rhagamcanion o gwmpas 4-6 gradd yn uwch na chymedr heddiw. Yn achos Cymru, mae hyn yn golygu hafau cynhesach a gaeafau gwlypach. Mae'r amcangyfrifon canolog i newid ar gyfer y 2050au i Gymru ar sail amcangyfrifon canolrif cynnydd byd-eang mewn nwyon ty gwydr fel a ganlyn:

Rhagamcenir y bydd tymheredd blynyddol ar gyfartaledd yn cynyddu 2.3°C

Yn yr haf, rhagamcenir y bydd uchafswm y tymheredd dyddiol yn cynyddu 3.4°C

Yn y gaeaf, rhagamcenir y bydd isafswm y tymheredd dyddiol yn cynyddu 2.5°C

Yn gyffredinol, rhagamcenir y bydd cyfanswm y cyfartaledd glawiad blynyddol yn aros yr un fath, ond rhagamcenir ar gyfartaledd y bydd glawiad yn cynyddu 14% yn y gaeaf ac yn gostwng 16% yn yr haf .

Ar ben hynny, bydd newid hinsawdd ar y raddfa hon yn debygol o leihau'r adnoddau tir amaethyddol yn fyd-eang oherwydd bydd llawr o dir trofannol ac isdrofannol ar draws y byd yn rhy sych ar gyfer amaethyddiaeth.

Gyda'i gilydd mae cynhyrchu, dosbarthu, defnydd a gwastraff bwyd yn cyfrif am 20 y cant o ôl-troed ecolegol Cymru. Mae gwella effeithlonrwydd adnoddau ar draws y systemau cynhyrchu a dosbarthu bwyd, ynghyd â mwy o bwyslais ar ddefnyddwyr yn prynu cyfran uwch o fwyd a dyfwyd yn lleol, ac sydd yn ei dymor, yn elfennau allweddol o leihau ôl-troed ecolegol bwyd Cymru.

Mae gan ardaloedd yr ucheldir rôl fel cronfa bwysig o garbon sydd mewn pridd oherwydd bod cynnwys pridd organig uchel pridd yng Nghymru yn cael ei gysylltu'n bennaf â'r ucheldir a glaswelltir parhaol. Amcangyfrifir bod stoc C pridd Cymru oddeutu 409 Megadunnell o garbon. Lleolir tua hanner cyfanswm stoc pridd C o fewn arwynebedd o 492,721 ha neu 23.4 y cant o arwynebedd tir Cymru, yn bennaf yn ardaloedd yr ucheldir a/neu ardaloedd o laswelltir parhaol. Fe all yr ucheldir ddarparu peth lliniaru trwy gadw carbon sydd yn y pridd mewn pridd organig trwy ailwlychu cronfeydd mawn presennol; plannu coetiroedd parhaol newydd ar bridd mwynol/gwelliannau glaswelltir; gwella rheoli maethynnau; lleihau faint o wrtaith a ddefnyddir ac a wastreffir; lleihau eplesiad enterig mewn da byw; mwy o ffermydd gwynt mewn lleoliadau priodol

Y rhan allweddol sydd gan ardaloedd yr ucheldir i'w chwarae mewn cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar bob graddfa ac ar draws ystod o dechnolegau, yn cynnwys cartrefu 7 Ardal Chwilio Strategol a gafodd eu hadnabod fel y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni gwynt ar y tir ar raddfa fawr (dros 25MW)

Mae llawer o ucheldir Cymru yn dirwedd eiconig o harddwch golygfaol eithriadol, ac fe'i nodweddir yn aml gan hunaniaeth ddiwylliannol unigryw sy'n gysylltiedig â gweithgareddau defnydd tir traddodiadol. O safbwynt y tirwedd, mae hyn yn cynnal ymdeimlad cryf o le a hunaniaeth i bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol efallai i dri Pharc Cenedlaethol Cymru a'i phum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Gyda'i gilydd mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys tua 25 y cant o arwynebedd Cymru, llawer ohonynt yn yr ucheldir. Mae ymchwil wedi dangos bod y tirweddau gwarchodedig hyn yn cynnal dros 10,000 o swyddi yn uniongyrchol ac yn cyfrannu £146 miliwn y flwyddyn i economi gwledig Cymru. Mae'r ardaloedd hyn o dan bwysau o sawl cyfeiriad fodd bynnag, ac wrth fynd

ymlaen un her allweddol yw sut y gallwn wneud y gorau o gyfraniad economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yr ardaloedd hyn mewn ffordd gynaliadwy.

Rôl bosib ardaloedd yr ucheldir wrth ddarparu'r cynnydd mewn cyflenwadau bwyd y bydd eu hangen i fwydo poblogaeth a ragamcenir i gyrraedd 9 biliwn erbyn 2050 (cynnydd o 50% ar boblogaeth heddiw). Mae galw cynyddol am fwyd yn debygol o olygu ffurf fwy dwys o amaethyddiaeth oherwydd y prinder tir addas ar gyfer cynhyrchu bwyd. Mae disgwyl i gynefinoedd naturiol presennol yr ucheldir ddod o dan bwysau os yw cynhyrchu i ehangu. Mae diwydiant amaethyddol Cymru yn cael ei ddominyddu gan gynhyrchu da byw sy'n manteisio ar ased naturiol glaswelltir helaeth. Y ffaith yw bod cynhyrchu bwyd o'r fath yn dibynnu'n bennaf ar anifeiliaid cnoi cil i droi glaswellt yn fwyd lle mae eisoes dadl ar droed ynghylch graddfa allyriadau nwyon ty gwydr.

Cyfyng yw gallu ardaloedd yr ucheldir i ymateb i'r globaleiddio mewn amaethyddiaeth ac mae'r symudiad trwy agenda Sefydliad Masnach y Byd i ddileu unrhyw rwystrau diangen i farchnadoedd yn gosod pwysau sylweddol ar fentrau ffermio nad ydynt wedi eu graddoli i gyflenwi lleihad costau trwy arbedion maint ac agorwyd i'r prif farchnadoedd.

### Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru

11.Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddyletswydd i lunio cynllun sy'n pennu sut y bydd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy "wrth ymarfer ei swyddogaethau" a chyhoeddwyd y Cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, ym Mai 2009. Mae'n cadarnhau mai datblygu cynaliadwy yw nod cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth. Mae'r Cynllun yn ymrwymo'r Llywodraeth i ddatblygu Cymru lle rydym yn defnyddio ein cyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear a lle down yn gymdeithas decach a mwy cyfiawn. Mae gweledigaeth y Llywodraeth o Gymru gynaliadwy yn cydnabod yr angen am ecosystemau iach, gweithredol sydd yn fiolegol amrywiol a chynhyrchiol ac sy'n cael eu rheoli'n gynaliadwy a bod ein hamgylchedd tir, dwr croyw a morol yn cael ei reoli yn y ffordd orau i ddarparu gwasanaethau bwyd, coed, dwr, pridd, cynefinoedd a hamdden. Mae adrodd ar gynnydd ein Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth rhywogaethau a chynefinoedd yn un o 5 prif ddangosydd datblygu cynaliadwy'r Llywodraeth.

12.Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio cael cydbwysedd rhwng y gofynion amrywiol a wneir ar ardaloedd yr ucheldir mewn ffordd sy'n gyson â datblygiad cynaliadwy. Oherwydd bod llawer o ddefnydd tir yn yr ucheldir (yn enwedig ffermio) ynghlwm â phenderfyniadau polisi cyhoeddus (rheoleiddio ac ariannu yn enwedig), fe all newidiadau mewn polisi gael effaith sylweddol ar reoli tir. Gwelwyd newid sylweddol yn y mecanwaith cymorth i ffermwyr yn dilyn proses ddiwygio'r PAC 2003, a weithredwyd yng Nghymru yn 2005. Bellach nid yw'r Taliad Sengl wedi'i gysylltu â chynhyrchu gan alluogi ffermwyr felly i lunio eu busnesau yn fwy hwylus yn ôl anghenion y farchnad a defnyddwyr. Prif gynnyrch yr ucheldir yw cynhyrchu defaid a mynegwyd pryder ynghylch y dirywiad yn niferoedd defaid, ac yn enwedig maint y praidd bridio mewn blynyddoedd diweddar. Ar y llaw arall, mae'n rhaid cydnabod bod yno gynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd defaid yng Nghymru i gyd-fynd ag aelodaeth o'r UE a mynediad at gynlluniau cymhorthdal blaenorol a oedd yn weithredol o dan y PAC.

13.Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i ddyfodol cynaliadwy ar gyfer ardaloedd ucheldir Cymru a sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu rôl yn nhermau cynhyrchu bwyd, rheoli tir, rheoli dwr, bioamrywiaeth a newid hinsawdd.

### Amaethyddiaeth a Rheoli Tir

14.Mae yno nifer o fentrau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu amaethyddiaeth Cymraeg a rheoli tir ac mae'r rhain wedi cael eu dwyn ynghyd dan gyfarwyddyd strategol y Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad.

15Nod y Strategaeth yw sicrhau dyfodol cynaliadwy a ffyniannus i deuluoedd a busnesau ffermio trwy gynhyrchu a phrosesu cynnyrch fferm a choedwigaeth wrth warchod yr amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid, addasu i newid hinsawdd a lliniaru ei effeithiau, a chyfrannu i fywiogrwydd a ffyniant ein cymunedau gwledig. Gan fod 80% o Gymru ar hyn o bryd wedi'i dynodi â statws Ardal Lai Ffafriol, mae ardaloedd ucheldir Cymru yn adnodd hanfodol o safbwynt amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, ac mae eu cynaliadwyedd a'u datblygiad yn y dyfodol yn gysylltiedig yn ei hanfod ag amcanion y Strategaeth sy'n cydnabod rôl sylfaenol sydd ganddynt i'w chwarae wrth gefnogi'r agenda economaidd-gymdeithasol gwledig ehangach.

16.Mae'n gosod yr agenda ar gyfer nifer o is-strategaethau a chynlluniau gweithredu o fewn yr Adran dros Faterion Gwledig, a thrwy ei broses fonitro a gwaith datblygu polisi, bydd yn sicrhau bod polisïau'r presennol a'r dyfodol yn cael eu hunioni gyda'i hamcanion, sydd â chynaliadwyedd a datblygiad ucheldir Cymru yn eu canol.

17.Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn darparu amrediad o fecanweithiau cymorth allweddol i ffermwyr. Nod Cyswllt Ffermio yw cyflenwi cyngor busnes effeithlon a pherthnasol, yn cynnwys cynlluniau olynu busnes; mae cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi yn ceisio trosglwyddo gwybodaeth a darparu gwybodaeth am y farchnad ac mae'r cynllun Grant Prosesu a Marchnata yn canolbwyntio ar alluogi cynhyrchwyr i gadw gwerth ychwanegol ar gynnyrch fferm. Y tu allan i'r Cynllun Datblygu Gwledig, mae'r Cynllun cymorth i Newydd-ddyfodiaid yn fecanwaith, gyda chymorth grant, i ddarparu cyngor ac arweiniad penodol i'r rhai sy'n cychwyn menter fferm neu sy'n ystyried y dewisiadau i gychwyn ffermio.

18.Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig Cymru hefyd yn fodd allweddol i gefnogi ffermio ar gyfer rheoli tir effeithiol sy'n cyflenwi budd i'r cyhoedd trwy weithgaredd amaeth-amgylchedd. O dan gynlluniau Tir Gofal a Tir Cynnal mae tua 7,000 o ffermwyr yn ymwneud yn weithredol â gweithgaredd o'r fath gyda chymorth hefyd wedi'i gyfeirio at y sector ffermio organig, darparu coetiroedd a'r cymorth uniongyrchol cyfredol i gynhyrchwyr da a chig eidion mewn ALFf o dan gynllun Tir Mynydd.

19.Mae yno ddau faes polisi allweddol sy'n berthnasol i'r Ymchwiliad Is-bwyllgor, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ardaloedd yr ucheldir: agenda'r UE gyda golwg ar ailddynodi'r ALFfau o fewn yr UE a'r cynllun rheoli tir newydd, Glastir.

## Ailddynodiad Ardal Lai Ffafriol (ALFf) yr UE

Yn 2003, cafodd mesurau cymorth ALFf o fewn yr UE eu beirniadu'n hallt gan Lys Archwilwyr Ewrop a dywedwyd eu bod yn cynnig gwerth gwael am arian ac yn cael fawr ddim effaith ar adael i dir fynd yn segur (a nodwyd yn aml fel un o amcanion allweddol ar gyfer cyfiawnhau'r cymorth ariannol o fewn ALFfau). Cododd LlAE hefyd gwestiynau ynghylch y cyfiawnhad dros ffiniau'r ALFf ar y pryd.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cael y dasg o ddatblygu meini prawf newydd ar gyfer ail-ddynodi ffiniau ALFf a fyddai'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws yr UE. Y disgwyl yw, ar ôl iddynt gael eu cytuno, y bydd y meini prawf yn cael eu defnyddio ar gyfer dynodiadau a fyddai'n dod i rym yn 2014.

Cafodd ALFfau cyfredol eu dynodi'n bennaf yn y 1970au ar sail meini prawf economaidd-gymdeithasol. Bydd y meini prawf newydd yn canolbwyntio ar agweddau hinsawdd, topograffeg a daeareg. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymwneud yn agos â'r gwaith ail-ddynodi yma ac mae'n chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Comisiwn ar hyn o bryd drwy'r Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (CYC) sydd â'r dasg o gytuno ar fethodoleg ar gyfer mapio'r ALFf diwygiedig

ar draws Aelod Wladwriaethau yr UE.

Mae'r ffrwd gwaith ail-ddynodi yn ymwneud â meini prawf ar gyfer adnabod ffiniau; nid yw'n archwilio mecanweithiau cymorth ariannol ar gyfer cynhyrchwyr o fewn yr ALFfau.

- Y Cynllun Glastir newydd

Roedd cytundeb 2008 ar y broses o "archwiliad iechyd" y PAC yr UE yn arwydd o newid clir yn y polisi clir tuag at ofyniad i gwrdd â sialensiau newid hinsawdd, dal carbon, rheoli dwr a bioamrywiaeth. Mewn ymateb mae Llywodraeth y Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi y bydd 5 cynllun a ddarperir ar hyn o bryd o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru (Tir Gofal, Tir Cynal, Tir Mynydd, Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif ac Organig) yn cael eu disodli gan un cynllun newydd - Glastir

Bydd Glastir yn dod yn weithredol ar 1 Ionawr 2012. Bydd cytundebau presennol

Tir Gofal a Tir Cynal yn cael eu hymestyn i ddiwedd 2013.

Yn ei hanfod, bydd Glastir yn rhoi ffocws clir ar gamau rheoli tir cynaliadwy ar lefel fferm sy'n cyflawni amcanion cysylltiedig â hinsawdd, carbon, pridd, dwr, cynefinoedd a bioamrywiaeth.

Bydd yr elfen Cymru gyfan, sy'n gofyn am ymagwedd fferm gyfan, yn cynnwys tua 39 o ddewisiadau rheoli tir ar gyfer ffermwyr a fydd yn gwella gwerth amgylcheddol cyffredinol y fferm. Bydd dewisiadau mwy cymhleth yn cael eu hariannu drwy'r elfen blaenoriaeth wedi'i thargedu, sydd hefyd yn cynnwys Cymru gyfan, ac yn cynnwys darparu cyngor a chefnogaeth gan swyddog prosiect.

Bydd y trefniadau ariannu arfaethedig ar gyfer yr elfen Cymru gyfan o dan Glastir, yn darparu taliad o £28 yr hectar. Ar gyfer y rhai sydd o fewn yr ALFf, bydd y taliad yn £33.60 yr hectar, o'i gymharu â chyfradd taliadau Tir Mynydd ar hyn o bryd o £24 yr hectar ar gyfer Ardal Ddifreintiedig a £28 yr hectar o fewn yr Ardal dan Anfantais Fawr.

20. Amlygodd yr ymgynghori a fu ar y Strategaeth Newid Hinsawdd yr angen i annog cynhyrchu ynni carbon isel ac ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

21.Mae lleoliad, daearyddiaeth a hinsawdd Cymru yn golygu bod gennym adnoddau trydan cynhenid sylweddol ac felly adnoddau trydan adnewyddadwy diogel y gellir eu dal yn effeithiol gan dechnolegau modern. Gall hyn fod ar raddfa fawr iawn fel yn achos prosiectau amrediad lanw, tonnau a ffrwd llanw, trwy ynni gwynt mawr ar y tir ac ar y môr at brosiectau cynhyrchu trydan a gwres lleol llai (yn cynnwys micro) sy'n defnyddio ynni gwynt, solar, dwr neu bwer biomas. Bydd Datganiad Polisi Ynni Carbon isel cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi safbwynt Llywodraeth y Cynulliad ac yn amlinellu'r fframwaith datblygu cynaliadwy ar gyfer cyflymu'r newid hanfodol yng Nghymru i economi sy'n seiliedig ar ynni carbon isel effeithlon am y cyfnod y tu hwnt i 2010 yn ogystal â nodi'r materion ynni ehangach sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni. Unwaith y mae'r datganiad polisi ynni carbon isel wedi'i sefydlu, bydd TAN 8; Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yn cael ei adolygu er mwyn adlewyrchu'r targedau ynni carbon isel newydd.

22.Bydd y Cynllun Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy Cymunedol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn darparu cymorth i 22 o brosiectau ar draws meysydd Cydgyfeirio a Chystadleurwydd. Byddwn yn canolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer ynni gwynt, dwr a biomas yn ogystal â'r cynllun cyllid cyfalaf er mwyn darparu tua 130 o grantiau bychan i ariannu costau cychwynnol fel astudiaethau dichonoldeb. Mae nifer o'r prosiectau hyn yn debygol o fod yn ardaloedd yr ucheldir.

## Casgliad

23.Mae'r ucheldir yn mynd i fod yn adnodd prin a fydd yn gorfod ymdopi â chystadleuaeth gynyddol ddwys i'w ddefnyddio. Wrth i'r hinsawdd gynhesu, bydd yr uchder lle daw amaethyddiaeth yn ymylol yn symud yn raddol i fyny, o bosib i'r ardaloedd hynny sy'n cael eu gwerthfawrogi am eu 'naturioldeb rhannol'. Efallai y bydd yno wrthdaro rhwng cynhyrchu bwyd ar gyfer byd cynyddol newynog a chamau i warchod yr amgylchedd sy'n canolbwyntio ar amddiffyniad 'munud olaf' o ecosystemau sy'n lleihau neu'n diflannu.

24.Ar yr un pryd, fe allai awydd i leihau allyriadau carbon mewn mannau eraill arwain at ymdrechion i blannu coed ar raddfa fawr neu ddatblygu cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn eang. Ar ben hynny, mewn byd poblog iawn, mae'n bosib y bydd rhai ardaloedd yn yr ucheldir yn cael eu gweld fel y mannau diwethaf lle mae'r gellir profi'r gwerthoedd esthetig neu ysbrydol y mae cymdeithas yn eu cysylltu ag 'anialdiroedd'.

25. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol iawn o'r gwrthdaro rhwng yr elfennau hyn ac mae Gweinidogion yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn briodol ag anghenion hir dymor yr ucheldir.

| | |
|---|---|
| ELIN JONES<br>Y Gweinidog dros Faterion Gwledig | JANE DAVIDSON<br>Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai |